

07/12/20

Annwyl ddisgybl, riant / warcheidwad,

Fel soniwyd yn y [Llythyr-Rieni-10-13-Cyfes-Arholiadau-2021](#) ar yr 11/11/20, byddwn yn rhannu gwybodaeth bellach gyda chi cyn gynted ag y byddwn yn clywed am benderfyniadau'r Grŵp Cyngori Dylunio a Chyflawni, gobeithio yn gynnar ym mis Ionawr.

Un o sgîl effeithiau anfwriadol y cyhoeddiad gan y Gweinidog oedd y cynnydd mewn lefelau pryder disgyblion oherwydd yr ansicrwydd am yr asesiadau allanol a ddisgrifiwyd. Hefyd, mae rhai o ddisgyblion cydwybodol Bryn Tawe yn pryderi am bob asesiad bellach ac yn eu hystyried yn rhai 'terfynol'. Rydym yn fwriadol wedi cwrdd gyda disgyblion blynyddoedd 10-13 i egluro'r sefyllfa yn llawn, ond mae'n amlwg yn ein sgysiau gyda disgyblion yn ddiweddar, fod y pryderon yma yn parhau.

Mae hyn wrth gwrs ar ben y cyfnod ansicr a phryderus iawn rydym yn ei chanol ar hyn o bryd gyda blynyddoedd neu grwpiau o ddisgyblion yn cael eu hynysu ac yn cael eu gorfodi i ddysgu o bell. Er ein bod yn hyderus fod yr arlwy yma yn un effeithiol iawn i'n disgyblion, ni fydd fyth yn fwy effeithiol na dysgu yn y dosbarth gyda'ch athrawon. **Rydym yn ymwybodol iawn o effaith y cyfnodau dysgu o bell yma ar gynnydd a hyder disgyblion. Byddwn yn ystyried hyn yn llawn mewn unrhyw benderfyniadau ble fydd gofyn i ysgolion wneud ynghylch graddau a chymwysterau disgyblion.**

Felly, yn dilyn gwranddo ar ein disgyblion, rydym wedi penderfynu ar y canlynol:

- **Nid oes disgwyl i unrhyw ddisgybl wneud gwaith ysgol dros wyliau'r Nadolig.** O ystyried y cyfnod rydym i gyd yn byw drwyddo'n bresennol, mae'n allweddol bod ein disgyblion a'n hathrawon yn cymryd amser i ymlacio gyda'u teuluoedd dros yr Ŵyl, heb y gwasgedd o waith ysgol yn pwysu arnom. **Ni fydd adrannau felly yn gosod gwaith i'w gwblhau dros wyliau'r Nadolig.**
- Yn sgîl yr uchod, **ni fydd unrhyw asesiadau pynciol yn cael eu cynnal yn ystod y bythefnos gyntaf ar ôl gwyliau'r Nadolig.** Pwrpas hyn fydd i roi amser i ddisgyblion allu paratoi ar gyfer unrhyw asesiadau pynciol, sydd yn cael eu cynnal fel rhan o'n harferion dysgu arferol.
- **Byddwn yn gohirio ein 'ffug arholiadau'** sydd wedi eu trefnu ar gyfer bl.12eg a 13eg rhwng y 12-22ain o Ionawr 2021; a rhai 11eg sydd wedi eu cynllunio ar gyfer y 1-11 o Chwefror 2021.
- Byddwn yn ail edrych ar yr angen i gynnal ffug arholiadau pan fyddwn yn derbyn gwybodaeth lawn gan Lywodraeth Cymru / Cymwysterau Cymru am y trefniadau asesu newydd. Byddwn yn sicrhau digon o rybudd i ddisgyblion allu paratoi yn llawn, os bydd rhain yn digwydd.

Gobeithio bod y pwyntiau uchod yn help i leihau straen yn ystod y cyfnod ansicr yma, yn addysgiadol ac yn bersonol i bob un ohonom. Yn naturiol, mae athrawon wedi paratoi asesiadau i'w cwblhau yn ystod y bythefnos nesaf, fel yr arfer. Bydd rhain yn parhau fel arfer. Unwaith eto, os nad ydych yn yr ysgol oherwydd hunan ynysu 'personol', byddwn yn ystyried hynny'n llawn.

Cofiwch fod eich Arweinydd Dysgu ac aelodau o'r Uwch Dîm Arwain ar gael ar bob adeg i drafod unrhyw bryderon sydd gennych am eich gwaith, neu unrhyw fater o bwys yn eich bywydau - dewch i gael sgwrs.

Yn ddiffuant,

*Simon Davies*



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net](mailto:SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)

Pennaeth : Mr Simon Davies

